

Sut i Gwblhau ACP

Y wybodaeth fydd arnoch ei hangen

Er mwyn cwblhau eich Adroddiad Cwblhau Prosiect (ACP), bydd arnoch angen gwybod y canlynol:

- Y Canlyniadau Prosiect Gwirioneddol a Gyflawnwyd
- Sut mae'r Canlyniadau hyn wedi bod o fudd i'ch Sefydliad
- Nifer gwirioneddol y Sesiynau a'r Cyfranogwyr

Hefyd bydd rhaid i chi ddweud wrthym ni faint o'r canlynol sydd gennych chi nawr os oedd eich cais yn dynodi y byddai cynnydd:

- Hyfforddwyr / Arweinwyr
- Swyddogion
- Gwirfoddolwyr
- Staff Cyflogedig
- Y Gymraeg

Os oes gennych chi amod y mae'n rhaid ei fodloni fel rhan o'ch cynnig wrth i chi gwblhau eich prosiect, bydd rhaid i chi hefyd atodi tystiolaeth gyda'r ACP i ddangos eich bod chi wedi cydymffurfio â'r amod yma.

Sut mae cael eich ACP

Ar ôl i'ch prosiect gyrraedd ei ddyddiad cwblhau, byddwch yn derbyn e-bost yn rhoi gwybod i chi bod eich ACP ar gael ar Borthol Grantiau Chwaraeon Cymru.

I gael eich ACP, i ddechrau mae'n rhaid i chi fynd i'r adran 'Fy Ngrantiau' yn y porthol, sydd ar ochr chwith y sgrin. Wedyn bydd y sgrin yn dangos eich holl Grantiau Gweithredol, Cyflawn a Chaeedig. Dewiswch y grant perthnasol drwy glicio ar 'Gweld':

Grantiau Cyflawn
Mae gennych 4 grant cyflawn

I weld rhagor o fanylion neu i ddiweddarau prosiect, dewiswch y prosiect o'r grid isod.

Cyfeirnod	Teitl	Diweddarwyd Ddiwethaf	
CCE_1342	PCR Conditions	03/24/2017 09:39:28	Gweld
DGE_1067	PCR test	02/11/2016 10:42:03	Gweld
DGE_1345	DG PCR test	04/11/2017 12:14:23	Gweld
DGW_1341	DG PCR Test Welsh	03/07/2017 16:18:19	Gweld


Canlyniadau 1 i 4 o 4

1


Bydd hyn yn mynd â chi i'r Sgrin Manylion y Grantiau. Yma cewch lawrlwytho copi PDF o'ch cais i gyfeirio ato wrth gwblhau eich ACP, drwy glicio ar 'Gweld/Argraffu' ar ochr dde'r sgrin.

I gael at yr ACP o'r sgrin yma, cliciwch ar un o'r botymau canlynol:

'Adroddiadau Cynnydd' ar ochr chwith y sgrin:



Neu 'Adroddiadau' ar ochr dde'r sgrin:



Bydd y sgrin ganlynol yn ymddangos – cliciwch ar 'Golygu' i fynd at y ffurflen:

Adroddiadau Cynnydd

Mae'r tabl isod yn dangos yr holl adroddiadau cynnydd sydd eu hangen er mwyn cwblhau'r prosiect hwn. Ar ôl i adroddiad gyrraedd statws Gofynnol neu Ceisiwyd, byddwch yn gallu uwchlwytho'r adroddiad cynnydd. Mae posib gweld unrhyw adroddiadau cynnydd sydd wedi'u derbyn yma.

Math	Statws	Ar Gael Ar	Angen Erbyn	Derbyniwyd Ar	Math o Gyswilt
Project Completion Report (English)	Required	11 Nov 2016 00:00:00	11 Nov 2016 00:00:00	-	-

Cwblhau eich ACP

Canlyniadau Prosiect

Mae'r adran Canlyniadau Prosiect Disgwyliedig wedi'i llenwi ymlaen llaw gyda gwybodaeth a benderfynwyd yng ngham asesu eich cais ac a oedd yn eich llythyr cynnig wedyn. O dan yr adran yma, mae blwch testun i chi ddweud wrthym ni am y Canlyniadau Gwirioneddol rydych chi wedi'u cyflawni fel rhan o'r Prosiect ac mae blwch testun ar wahân i ddweud wrthym ni sut mae'r canlyniadau wedi bod o fudd i'ch Sefydliad.

Hefyd, mae cwestiwn yn gofyn ydych chi wedi cyflawni popeth yr oeddech chi eisiau ei gyflawni'n wreiddiol, fel y disgrifir ar eich ffurflen gais. Os byddwch yn ateb 'Naddo' yn y cwestiwn yma, bydd blwch testun arall yn ymddangos a rhaid i chi ei lenwi.

Sesiynau a Chyfranogwyr

I ddweud wrthym ni am nifer y sesiynau a'r Cyfranogwyr sydd gennych chi nawr, rhaid i chi glicio ar 'Golygu'. Bydd hyn yn mynd â chi i sgrin godi ar wahân:

Rhyw	Grwp Oedran	Anabledd/Nam	Grwp o Bobl Dduon neu o Gefndir Lleiafrif Ethnig	Sesiynau Gwirioneddol	Cyfranogwyr Gwirioneddol	Timau Gwirioneddol
Cymysg	Grwpiau oedran cymysg (sawl cenhedlaeth, teulu, ac ati)	Cwbl Gynhwysol	Cwbl Cynhwysol			Golygu Dileu

Yma bydd y ffigurau a nodwyd ar y ffurflen gais a'r rhai a benderfynwyd yn yr asesiad wedi'u llenwi ymlaen llaw. Nodwch y niferoedd 'Gwirioneddol' ac wedyn pwyswch 'Cadw a Chau'.

Sylwer: Bydd rhaid i chi ailadrodd y broses hon ar gyfer pob rhes ar y grid Sesiynau a Chyfranogwyr.

Gweithlu

Os oedd eich cais yn nodi y byddai cynnydd yn eich gweithlu, defnyddiwch yr is-adrannau canlynol i ddweud wrthym ni faint o aelodau sydd gennych chi nawr:

- Hyfforddwyr / Arweinwyr
- Swyddogion
- Gwirfoddolwyr
- Staff Cyflogedig
- Y Gymraeg

Dywedwch wrthym ni faint o'r uchod sydd gennych chi nawr drwy deipio yn y blychau.

Os na wnaethoch ddynodi y byddai cynnydd yn y gweithlu, ni fydd unrhyw gridiau i'w llenwi ar y tudalennau canlynol, felly ewch ymlaen a chlicio ar 'Nesaf' oherwydd rhaid edrych ar bob tudalen er mwyn dilysu'r ACP.

Gwybodaeth Ychwanegol

Os ydych chi'n credu bod unrhyw wybodaeth ychwanegol y dylem wybod amdani, gallwch ychwanegu atodiadau yma, drwy glicio ar '[Ychwanegu atodiad...](#)':

Gwybodaeth Ychwanegol

Os hoffech roi gwybodaeth ychwanegol i ddangos sut mae eich prosiect wedi cael ei weithredu, neu i roi tystiolaeth i ni o wariant ac ati, cliciwch ar 'Ychwanegu atodiad...' isod.

Sylwer: Unwaith rydych chi wedi dewis eich atodiad, bydd rhaid i chi nodi disgrifiad o'r ffeil cyn ei hatodi.

[Ychwanegu atodiad...](#)

Ar ôl i chi ddewis eich atodiad, bydd rhaid i chi hefyd nodi disgrifiad o'r ffeil cyn clicio ar 'Cadw'.

Amodau

Os oes unrhyw amodau y mae'n rhaid i chi eu bodloni wrth gwblhau eich prosiect, byddant yn cael eu dangos yma. Cliciwch ar 'Golygu' i agor y blwch codi 'Amodau'.

Os ydych chi wedi cydymffurfio â'r amod, ticiwch 'Do'. Bydd yn dangos yr Atodiad 'Tystiolaeth o Gydymffurfio'. Dewiswch y ffeil berthnasol ar eich cyfrifiadur a chliciwch ar 'Atodi' ac wedyn 'Cau' ac wedyn 'Cadw'.

Os nad ydych chi wedi cydymffurfio â'r amod, ticiwch 'Naddo'. Bydd yn dangos blwch testun ble gallwch chi ddweud wrthym ni pam rydych chi wedi methu bodloni'r amod yn eich cynnig. I ddychwelyd at y prif ACP, cliciwch ar 'Cadw'.

Datganiad

Fel gyda phroses y ffurflen gais, mae rheoliadau Chwaraeon Cymru yn dweud bod rhaid cael 2 lofnodwr ar ffurflen ACP. I gyflawni hyn, bydd rhaid i chi gytuno i'r datganiad ar ddiwedd y ffurflen yma, a hefyd cael aelod arall o'ch sefydliad i'w dderbyn, gan roi ei fanylion cyswllt. Wedyn bydd Chwaraeon Cymru yn gallu cysylltu ag ef neu hi yn y dyfodol, i gadarnhau ei fod yn derbyn yr ACP.

Cyflwyno eich ACP

Ar ôl i chi lenwi'r holl adrannau gorfodol yn eich ACP, ewch i'r dudalen 'Dilysu'. Bydd hyn yn dilysu eich ffurflen a bydd y botwm 'Cyflwyno'r Ffurflen' yn ymddangos.

Mae ffurflen eich ACP yn ddilys - Dilynwch y camau nesaf er mwyn cwblhau'r broses gyflwyno:

- Cliciwch **Cyflwyno Ffurflen**
- Byddwch yn derbyn e-bost awtomatig sy'n cynnwys cydnabyddiaeth ein bod wedi derbyn eich ffurflen wedi'i chwblhau.

[Cyflwyno Ffurflen](#)

Bydd eich ACP wedi'i gwblhau'n cael ei anfon wedyn i'r cyfarfod panel nesaf sydd ar gael o'r Gist Gymunedol yn yr awdurdod lleol ble cynhaliwyd eich prosiect. Bydd y Panel yn adolygu'r wybodaeth sydd wedi'i chyflwyno a byddwch yn clywed ar e-bost a yw eich ACP wedi cael ei dderbyn.

Os na fydd y Panel yn derbyn eich ACP, byddwch yn cael gwybod am hynny ar e-bost ac yn cael gwybod hefyd pa wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen. Wedyn gofynnir i chi gwblhau ACP newydd.

Cadw a Chau eich ACP

Cofiwch fod posib i chi gadw a chau eich ACP ar unrhyw adeg ac wedyn dod yn ôl ato pan mae'r wybodaeth rydych chi ei hangen gennych chi. Bydd eich ffurflen ACP yn cael ei dilysu unwaith y byddwch chi wedi pwyso cadw a dim ond unwaith fydd y botwm cyflwyno'n ymddangos, ar ôl i chi ddarparu'r holl wybodaeth mae Chwaraeon Cymru ei hangen.